

Cymhwyso dimnadaeth o ymddygiad i'r Dreth Gyngor yng Nghymru

Adroddiad gan Dîm Behavioural Insights

Medi 2016

Cynnwys

Crynodeb gweithredol	4
Ffigur 1: Y gyfran o drigolion Casnewydd yn y sampl a dalodd drwy Ddebyd Uniongyrchol yn ystod y cyfnod treialu.....	5
Ffigur 2: Y gyfran o drigolion Casnewydd yn y sampl a dalodd mewn rhandaliadau yn ystod y cyfnod treialu.....	6
Ffigur 3 Y gyfran o aelwydydd a dalodd yn sgil y llythyr atgoffa cyntaf yn ystod y treial	7
Cefndir.....	8
Y broses o dalu'r Dreth Gyngor yng Nghasnewydd a Merthyr Tudful	8
Cefndir Tîm Behavioural Insights	9
Trefn yr Adroddiad.....	9
Adolygiad llenyddiaeth	9
Tueddiadau ymddygiadol a allai leihau'r arfer o dalu'r Dreth Gyngor	10
Oedi cyn talu	10
Tuedd o blaid y presennol a diystyru hyperbolig.....	11
Costau uniongyrchol ac uniongyrchol	11
Osgoi colled	11
Atebion a allai oresgyn tueddiadau.....	12
Dyfeisiau ymrwmo	12
Denu sylw	12
Amseru.....	13
Dewisiadau rhagosodedig.....	13
Fframio	13
Normau cymdeithasol	14
Negeseuon am wasanaethau cyhoeddus	14
Casgliad	14
Treial 1 - Treial negeseuon testun gyda Chyngor Casnewydd.....	14
Amcanion y prosiect.....	14
Yr ymyriad	15
Gweithredu	16
Canlyniadau	16

Ffigur 1: Y gyfran o drigolion Casnewydd yn y sampl a dalodd trwy Ddebyd Uniongyrchol yn ystod cyfnod y treial	17
Ffigur 2: Y gyfran o drigolion Casnewydd yn y sampl a dalodd fesul rhandaliad yn ystod cyfnod y treial	18
Argymhellion	18
Treial 2 –Treial llythyrau gyda Chyngor Merthyr Tudful	19
Amcanion y prosiect.....	19
Yr ymyriad	19
Gweithredu	20
Canlyniadau	21
Ffigur 3 Cyfran yr aelwydydd a dalodd ar ôl cael y llythyr atgoffa cyntaf yn ystod y treial	21
Argymhelliad	22
Casgliad	22
Atodiad1: Proses y Dreth Gyngor os nad yw pobl yn talu	24
Atodiad 2: Copi o lythyrau o dreial 2	25
Llythyr 1: Llythyr rheoli.....	25
Llythyr 2: Llythyr diagram.....	26
Llythyr 3: Llythyr gwasanaethau cyhoeddus	27

Crynodeb gweithredol

Bu'r Tîm Behavioural Insights yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a dau awdurdod lleol yng Nghymru i dreialu dulliau ymddygiadol er mwyn gwella'r broses o gasglu'r Dreth Gyngor. Buom ni'n gweithio gyda Chyngor Casnewydd a Chyngor Merthyr Tudful i brofi'r dulliau hyn mewn dau dreial dan reolaeth ar hap.

Yn y treial cyntaf, buom yn cydweithio â Chyngor Casnewydd i anfon negeseuon testun at drigolion y ddinas er mwyn eu hatgoffa i dalu'r Dreth Gyngor a'u hannog i dalu trwy Ddebyd Uniongyrchol. Anfonwyd tair neges brawf. Neges yn cynnwys norm cymdeithasol oedd y gyntaf.

“Did you know 66% of households in Newport pay by Direct Debit? Click here to sign up today: [insert link]”.

Roedd yr ail yn pwysleisio pa mor hawdd yw newid i Ddebyd Uniongyrchol.


“Take the hassle out of paying by signing up to Direct Debit here: [insert link]”.

Roedd y neges destun olaf yn pwysleisio'r ffaith mai taliadau'r Dreth Gyngor sy'n ariannu gwasanaethau cyhoeddus lleol.

“Your Council Tax funds valuable public services in Newport. Click here to pay: [insert link]”

Cafodd y negeseuon hyn eu hanfon ar ben y bil blyneddol ac unrhyw lythyron atgoffa. Yn ystod y cyfnod treialu, a barodd rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2016, doedd dim gwahaniaeth sylweddol rhwng y grŵp triniaeth a'r grŵp rheoli o ran pa mor debygol oedden nhw i ddechrau defnyddio Debyd Uniongyrchol. Roedd dadansoddiad pellach yn dangos bod cynnydd ystadegol arwyddocaol yn y niferoedd a ddechreuodd defnyddio Debyd Uniongyrchol yn ystod y mis cyntaf o fesur.

Ffigur 1: Y gyfran o drigolion Casnewydd yn y sampl a dalodd drwy Ddebyd Uniongyrchol yn ystod y cyfnod treialu



Credwn fod un o dri pheth (neu gyfuniad ohonynt) yn gyfrifol am y canlyniadau cadarnhaol o ran Debyd Uniongyrchol yn y mis cyntaf. Gall fod oherwydd:


1. bod y ddwy neges a anfonwyd yn y mis cyntaf yn canolbwyntio'n benodol ar Ddebyd Uniongyrchol;
2. bod normau cymdeithasol (a ddefnyddiwyd yn y neges gyntaf) yn arbennig o effeithiol; neu
3. bod y neges wedi'i hanfon ar ddechrau'r flwyddyn dreth newydd pan fo pobl o bosib yn fwy agored i newid eu ffordd o dalu.

Gallai treial pellach sy'n gwahanu'r dulliau hyn ddangos pa un sy'n sbarduno'r newid. Ar y cyfan, mae'n ymddangos yn anodd gwrthio pobl i dalu trwy Ddebyd Uniongyrchol. Yn ogystal ag egluro'r effeithiau a

amlinellir uchod, byddem yn argymhell cynnal ymchwil ansoddol pellach i ddeall a yw'r rhwystrau i ddefnyddio Debyd Uniongyrchol yn gysylltiedig â ffactorau mwy cymhleth fel cyllidebu neu gostau banc.

Ail nod y treial hwn oedd cynyddu'r tebygolrwydd o dalu'r Dreth Gyngor. Gwelsom fod y grŵp triniaeth yn llai tebygol o wneud taliad na'r grŵp rheoli, ac roedd y canlyniad yn ystadegol arwyddocaol.

Ffigur 2: Y gyfran o drigolion Casnewydd yn y sampl a dalodd mewn rhandaliadau yn ystod y cyfnod treialu




Roedd y canlyniad hwn yn annisgwyl ac nid yn un greddfol. Mae dadansoddiad cynnar yn dangos cydberthynas negyddol rhwng y tebygolrwydd o wneud taliad ac amddifadedd yn y grŵp a dderyniodd y negeseuon testun. Hynny yw, po fwyaf tlawd yw ardal cost post, yna lleiaf tebygol yr oedd pobl yr ardal honno o dalu yn sgil y negeseuon testun. Mae angen gwneud mwy o waith yn y maes hwn, ac felly mae TBI yn bwriadu gwneud dadansoddiad ansoddol. Ond dylid gwneud hyn cyn profi rhagor o ddulliau i wella'r broses o gasglu'r Dreth Gyngor gan ddefnyddio negeseuon testun.

Yn yr ail dreial, buom yn gweithio gyda Chyngor Merthyr Tudful i newid y llythyr atgoffa cyntaf sy'n cael ei anfon at drigolion os ydyn nhw'n methu talu taliad y Dreth Gyngor. Aethom ati i gynllunio dau lythyr newydd er mwyn cynyddu'r cyfraddau talu. Roedd y llythyr cyntaf yn fersiwn symlach o'r llythyr cyfredol, gyda diagram llif yn dangos proses y Dreth Gyngor yn weledol er mwyn gwneud goblygiadau peidio â thalu yn fwy amlwg. Roedd yr ail lythyr yn un symlach hefyd, ond gyda neges gwasanaethau cyhoeddus yn hytrach na diagram llif, i annog pobl i dalu.

Gwelsom fod y cyfraddau talu wedi cynyddu yn sgîl y llythyr â diagram, ond nid i raddau a oedd yn ystadegol arwyddocaol ($p \sim 0.09$). Nid yw'n ymddangos bod y neges am wasanaethau cyhoeddus wedi bod yn effeithiol.

Ffigur 3 Y gyfran o aelwydydd a dalodd yn sgîl y llythyr atgoffa cyntaf yn ystod y treial



Argymhellir cynnal rhagor o dreialon o ddulliau ymddygiadol sydd wedi llwyddo mewn cyd-destunau eraill.

Mae'r ffaith nad oedd rhai o'r dulliau hyn wedi cyflawni eu hamcanion yn dangos pa mor bwysig yw profi dulliau newydd er mwyn eu mireinio a chasglu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio. Er gwaethaf canlyniadau cymysg y treialon hyn, rydym yn credu y gall gwyddor ymddygiadol wella'r broses o gasglu'r Dreth Gyngor ac felly byddem yn argymhell cynnal profion pellach gyda dulliau ymddygiadol.

Cefndir

Daw 23% o refeniw awdurdodau lleol Cymru o'r Dreth Gyngor.¹ Er bod y cyfraddau casglu yn uchel (dros 90%), gall gwelliannau bach mewn cyfraddau talu greu miliynau o bunnoedd o incwm ychwanegol. Ar ben hynny, mae cynghorau'n defnyddio llawer o adnoddau yn mynd ar ôl taliadau hwyr felly bydd cynyddu cyfraddau talu yn gynharach yn y broses gasglu yn lleihau gwariant gweinyddol.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Dîm Behavioural Insights (TBI) weithio gyda chynghorau Casnewydd a Merthyr Tudful i brofi effaith defnyddio dimnadaeth o ymddygiad gyda'r broses o gasglu'r Dreth Gyngor.

Y broses o dalu'r Dreth Gyngor yng Nghasnewydd a Merthyr Tudful

Mae'r Dreth Gyngor yn cael ei phennu ar gyfer y flwyddyn ariannol a'i chasglu rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth. Mae'r broses gasglu'n cychwyn ym mis Mawrth gyda bil blynyddol yn cael ei anfon sy'n gofyn am daliadau gan aelwydydd cymwys.² Mae'r bil blynyddol yn nodi'r cyfanswm sy'n ddyledus yn ogystal â'r swm i'w dalu bob mis os yw pobl yn talu mewn rhandaliadau. Yng Nghasnewydd, mae tua 65,000 o filiau blynyddol yn cael eu hanfon ym mis Mawrth ac oddeutu 27,000 ym Merthyr Tudful.

Mae'r rhan fwyaf o aelwydydd yn dewis talu mewn rhandaliadau misol, ac yn gwneud hyn dros ddeg mis cynta'r flwyddyn. Gellir talu trwy Ddebyd Uniongyrchol, dros y ffôn, ar-lein, yn y banc neu swyddfa'r post, neu'n bersonol yn y Cyngor. Mae'n well gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol dderbyn Debyd Uniongyrchol gan fod y taliad yn cael ei wneud yn awtomatig. Yng Nghasnewydd, mae 66% o'r aelwydydd cymwys yn talu trwy Ddebyd Uniongyrchol, a 43% ym Merthyr Tudful.

Os nad yw aelwydydd yn talu erbyn y dyddiad dyledus, yna mae'r llythyr atgoffa cyntaf yn cael ei anfon. Os yw'r aelwyd yn talu o fewn yr amser penodedig, yna bydd amserlen y taliad misol a nodir yn y bil blynyddol yn aildddechrau. Os oes taliad arall yn cael ei fethu mae ail lythyr atgoffa yn cael ei anfon. Bydd ail lythyr atgoffa yn cael ei anfon hefyd os bydd rhywun yn methu'r dyddiad cau talu a nodir yn y llythyr atgoffa cyntaf.

Yn yr un modd, os bydd taliad yn cael ei wneud o fewn yr amser a nodir yn yr ail lythyr atgoffa, yna bydd yr amserlen dalu yn y bil blynyddiol yn ailgychwyn eto. Fodd bynnag, os ydynt yn methu taliad arall, neu'n methu dyddiad cau'r ail lythyr atgoffa, yna mae'r aelwyd yn colli'r hawl i dalu mewn rhandaliadau. Bryd hynny, bydd rhybudd terfynol yn cael ei anfon am gyfanswm y flwyddyn gyfan. Os na ddaw'r taliad hwn i law, mae'r cyngor yn cyflwyno gŵys llys. Os yw unigolyn yn derbyn gŵys i ymddangos gerbron llys, bydd yn gorfod talu ffioedd y llys hefyd. Y pwynt allweddol yw mai dim ond un llythyr atgoffa cyntaf y bydd aelwydydd yn ei dderbyn yn ystod y flwyddyn. Os ydynt yn talu hwnnw'n brydlon, ond yn methu taliad arall yn y dyfodol, yna bydd ail lythyr atgoffa yn cael ei anfon. Mae diagram o'r broses ym Merthyr Tudful i'w weld yn Atodiad 1.

Mae Cyngor Casnewydd yn casglu £55 miliwn o Dreth Gyngor bob blwyddyn, sef cyfradd gasglu o 96%. Mae Merthyr Tudful yn casglu £24 miliwn y flwyddyn, cyfradd gasglu o 97%. Mae'r rhain yn gyfraddau cydymffurfio uchel ac yn awgrymu ein bod ni'n ceisio newid ymddygiad grŵp gweddol benodol o bobl.

Cefndir Tîm Behavioural Insights

Mae Tîm Behavioural Insights (TBI) yn gwmni â diben cymdeithasol unigryw. Dechreuodd TBI ei fywyd yn swyddfa'r Prif Weinidog, 10 Downing Street, fel sefydliad llywodraeth cynta'r byd oedd â'r nod o gymhwyso gwyddorau ymddygiadol. Erbyn hyn, mae'r Tîm ymhlith cwmnïau ymgynghorol mwyaf blaenllaw'r byd sy'n ceisio helpu sefydliadau yn y DU a thramor i gymhwyso dimnadaeth o ymddygiad er mwyn cefnogi amcanion cymdeithasol.

Mae TBI yn cynnwys cyn-weision sifil, seicolegwyr, economegwyr ymddygiadol, marchnatwyr ac arbenigwyr polisi. Rydyn ni'n defnyddio syniadau o wyddorau ymddygiadol ac ymchwil ethnograffig a gynhaliwn ein hunain a gyda'n partneriaid er mwyn meithrin dealltwriaeth well o sut mae pobl yn ymddwyn mewn gwirionedd, yn hytrach na sut mae llunwyr polisïau ac economegwyr yn aml yn tybio y byddant yn ymddwyn. Gyda'r ddealltwriaeth hon o'r ymddygiad dynol sy'n seiliedig ar wybodaeth, rydym yn gallu rhoi arweiniad pragmatic wedi'i deilwra ar gynllunio polisi, gwasanaethau cyhoeddus a deunyddiau cyfathrebu er mwyn annog neu geisio atal rhai mathau o ymddygiad.

Lle bo modd, rydyn ni'n troi'r awgrymiadau hyn yn ymyriadau byd real ac yn cynnal profion empirig o effeithiau'r ymyriadau hyn, yn amlach na pheidio, trwy ddefnyddio treialon wedi'u rheoli ar hap. Rydyn ni wedi llwyddo i gymhwyso dimnadaeth o ymddygiad – a brofwyd gan ganlyniadau wedi'u gwerthuso'n gadarnhaol – i waith y sector cyhoeddus a phreifat yn y DU a thramor ar draws amrywiaeth eang o feysydd polisi, gan gynnwys trethiant.

Trefn yr Adroddiad

Mae gweddill yr adroddiad wedi'i drefnu fel a ganlyn:

- ◆ Adolygiad llenyddiaeth: arolwg cryno o'r llenyddiaeth ymddygiadol sy'n gysylltiedig â chasglu a chodi trethi
- ◆ Treial 1: disgrifiad o'r ymyriadau, cynllun y treial a chanlyniadau treial Cyngor Casnewydd.
- ◆ Treial 2: disgrifiad o'r ymyriadau, cynllun y treial a chanlyniadau treial Cyngor Merthyr Tudful.
- ◆ Casgliadau ac argymhellion ar gyfer gwaith y dyfodol.

Adolygiad llenyddiaeth

Diben yr adolygiad llenyddiaeth hwn yw darparu trosolwg o lenyddiaeth gwyddor ymddygiadol a chymhwyso'r casgliadau i'r broses o gasglu'r Dreth Gyngor. Mae cryn dipyn o waith ymchwil ar sut y gellir annog pobl i gwblhau trafodion ariannol penodol; ac mae llawer o'r ymchwil hwn yn canolbwyntio ar drethi. Mae'r adolygiad hwn yn rhoi crynodeb o'r gwaith ymchwil, gan ganolbwyntio i ddechrau ar y ddwy brif theori sy'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth treth, yna'r tueddiadau ymddygiadol posib sy'n gysylltiedig ag ymddygiad talu ac atebion ar gyfer goresgyn y tueddiadau hyn.

Mae yna ddwy brif theori sy'n gysylltiedig â chydymffurfiaeth treth: ataliol ac anataliol. Mae'r model ataliol mwy traddodiadol yn awgrymu bod pobl yn economaidd resymegol wrth benderfynu a ydynt am dalu treth. Mae'n awgrymu bod pobl yn pwysu a mesur y costau ariannol, y tebygolrwydd o gael eu dal a pha mor llym yw'r gost o beidio â thalu.^{3 4} Roedd cefnogwyr y dull hwn yn argymhell monitro, cosbau a chatau gorfodi effeithiol fel ffyrdd o annog pobl i gydymffurfio.^{5 6}

Mae'r model anataliol, sy'n seiliedig ar lenyddiaeth ymddygiadol, yn awgrymu bod ffactorau y tu hwnt i gostau a chosbau ariannol yn dylanwadu ar bobl, fel normau cymdeithasol, moeseg trethi, tegwch a darparu gwasanaethau.^{7 8} Felly, credir bod gennym ragduedd i gydweithredu â'r system dreth.⁹ Mae'r dull anataliol yn awgrymu y dylai prosesau fod yn haws i drethdalwyr, a bod gwasanaeth cymwys ar gael i helpu pobl i gydymffurfio.¹⁰ Hefyd, roedd cefnogwyr yn argymhell pwysleisio bod cydymffurfiaeth treth yn weithgaredd moesegol sy'n darparu nwyddau cyhoeddus pwysig a bod y mwyafrif yn gwneud hynny.¹¹

Mae cymhelliant pobl dros dalu treth yn amrywio, ac felly gallent fod yn fwy parod i dderbyn negeseuon gwahanol. Mae yna dystiolaeth bod rhai â hanes o ddiffyg cydymffurfio yn ymateb yn well i ddulliau ataliol,¹² tra gall rhai sydd wedi talu trethi yn y gorffennol ymateb yn well i ddulliau anataliol.¹³ Hefyd, gwelodd TBI fod rhai â dyledion treth uwch yn ymateb yn well i negeseuon a oedd yn eu hatgoffa i dalu oherwydd bod trethi'n talu am wasanaethau cyhoeddus.¹⁴ Efallai mai un rheswm am hyn yw bod y swm mawr o arian sy'n ddyledus ganddynt yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran darparu'r gwasanaethau hyn.

Mae TBI yn credu bod gan y dulliau ataliol ac anataliol gyfraniad i'w gwneud o ran cynyddu cydymffurfiaeth treth ac y dylid defnyddio'r dulliau hyn wrth ystyried sut mae awdurdodau'n cyfathrebu â threthdalwyr. Mae'r dull anataliol, fodd bynnag, yn canolbwyntio ar y broses o gasglu trethi, yn hytrach na'r system ar gyfer methu â thalu e.e. cosbau. O'r herwydd, bydd TBI yn canolbwyntio ar y dull anataliol ar gyfer y prosiect hwn, sy'n cyd-fynd â threialon treth blaenorol y tîm. Mae'r adrannau nesaf o'r adolygiad llenyddiaeth hwn yn crynhoi rhai o'r tueddiadau ymddygiad penodol, a'r atebion posibl, sy'n gysylltiedig ag ymddygiad talu trethi.

Tueddiadau ymddygiadol a allai leihau'r arfer o dalu'r Dreth Gyngor

Oedi cyn talu

Mae pobl yn dueddol o ohirio neu oedi cyn gwneud penderfyniad neu gyflawni tasg.¹⁵ Yn aml, oedi neu anghofio sy'n gyfrifol am ddiffyg gweithredu, yn hytrach na dymuniad i weithredu'n anghyfreithlon neu'n anonest. Felly, gall unigolion gyflawni twyll treth yn anfwriadol trwy ohirio llenwi'r ffurflen dreth. Mewn arbrawf a gynhaliwyd gan TBI mewn cydweithrediad â Banc y Byd ac awdurdod treth Guatemala, gwelwyd bod llythyr a bwysleisiai mai 'dewis bwriadol' ac nid esgeulustod oedd methu â datgan treth, wedi mwy na threblu'r dreth a dderbyniwyd o gymharu â'r llythyr safonol.¹⁶ Mae negeseuon pwerus, fel rhain, yn gallu helpu pobl i gysylltu diffyg gweithredu ganddyn nhw â delwedd negyddol ohonyn nhw eu

hunain sy'n gwrth-ddweud yr argraff gadarnhaol rydyn ni'n dueddol o'i chael ohonom ni'n hunain,¹⁷ gan gymhell pobl i beidio oedi a gweithredu yn lle hynny.

Tuedd o blaid y presennol a diystyru hyperbolig

Mae amharodrwydd i ymdrin â materion ariannol, gan gynnwys talu biliau, yn gysylltiedig â thuedd pobl i ddiystyru'r dyfodol. Mae hyn yn arwain at duedd o blaid y presennol. Yn aml, mae dewisiadau'n golygu cyfaddawdu rhwng costau a buddion ar wahanol adegau. Mae'n well gan bobl gael budd uniongyrchol yn hytrach na budd gohiriedig, ac felly mae digwyddiadau'r presennol (e.e. gwyliau drudfawr) yn cael mwy o flaenoriaeth na digwyddiadau'r dyfodol (e.e. llai o gynilion wrth ymddeol).¹⁸ Mae tuedd o blaid y presennol yn golygu pan gynnigir gwobr ariannol lai heddiw a gwobr ariannol fwy yn y dyfodol, bydd pobl yn dewis y wobr lai fel arfer.¹⁹ Mae cyfradd diystyru'r dyfodol yn anghyson dros amser. Er enghraifft, byddai'n well gan bobl gael £10 heddiw yn hytrach na £11 yfory, ond byddai'n well ganddyn nhw gael £11 flwyddyn a diwrnod i heddiw o gymharu â £10 union flwyddyn i heddiw.²⁰ Diystyru hyperbolig yw hyn. Mae'r pwyslais hwn ar gostau a buddion y presennol yn gallu golygu bod costau talu trethi heddiw yn teimlo'n fawr, tra byddai'r gost o beidio â thalu yn llai gan mai yn y dyfodol y byddai hynny. Gall sicrhau bod costau'r dyfodol yn amlwg arwain pobl i'w hystyried yn well wrth wneud penderfyniadau. Gall hyn, yn ei dro, gynyddu'r tebygolrwydd y byddant yn talu treth.

Costau uniongyrchol ac anuniongyrchol

Mae ffactorau trafferth bach a chostau uniongyrchol ac anuniongyrchol yn gallu dylanwadu'n anghymesur ar ymddygiad.²¹ Y costau uniongyrchol neu anuniongyrchol o wneud trafodyn yw'r rhain: po galetaf rydych yn ei gwneud i unigolyn gyflawni ymddygiad, yna'r lleiaf tebygol ydyw o wneud hynny. Gall hyn fod yn arbennig o wir wrth ymdrin â threth a dyledion, gan fod y materion hyn yn ddryslyd i bobl yn aml. Gwelodd treial gan TBI a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi bod darparu dolen mewn llythyrau dyledion oedd yn arwain unigolion yn syth i'r ffurflen berthnasol yn hytrach na'r wefan gyffredinol (a fyddai wedyn yn eu cyfeirio i'r ffurflen) yn cynyddu'r posibilrwydd o gasglu'r ddyled yn sylweddol, er gwaetha'r ffaith mai dim ond un clic llygoden yw'r baich ychwanegol.²² Rhan o effaith costau uniongyrchol neu anuniongyrchol yw'r ffaith mai dim ond hyn a hyn o adnoddau gwybyddol sydd gan unigolion ac felly wrth i amgylchiadau ofyn am fwy o ymdrech i brosesu gwybodaeth, mae pobl yn defnyddio strategaethau a synnwyr y fawd yn aml i wneud eu penderfyniadau, sy'n gallu arwain at ganlyniadau is-optimaid.

Osgoi colled

Ystyr hyn yw'r tueddiad i ymateb mwy i'r posibilrwydd o golledion yn hytrach nag enillion o faint cyffelyb. Er enghraifft, mae ymchwilwyr wedi archwilio effaith y ffordd y cynigir bonws cysylltiedig â pherfformiad myfyrwyr i athrawon. Pan gynigiwyd bonws posib ymlaen llaw i athrawon, gan ddweud wrthynt y byddai'n rhaid iddynt ddychwelyd y bonws os nad oedd eu myfyrwyr yn cyflawni'n ddigonol, llwyddodd eu myfyrwyr i sgorio'n well na myfyrwyr yr athrawon hynny a glywodd y gallent gael bonws tebyg – ond ar

ôl y prawf yn unig. Mae hyn oherwydd bod y syniad o golli swm o arian wedi ysbrydoli'r athrawon i wella perfformiad eu myfyrwyr yn fwy na dim ond y syniad o ennill yr un faint o arian.²³ Gall dulliau ataliol a negeseuon bygwth fod yn ffordd effeithiol o bwysleisio'r colledion sy'n gysylltiedig â gweithredu, a gwelwyd hefyd eu bod yn ffordd effeithiol o herio ymddygiad²⁴. Mae ymchwil wedi dangos fod egluro'r goblygiadau negyddol yn glir a phwysleisio'r costau sy'n gysylltiedig â pheidio gweithredu (er enghraifft pwysleisio'r perygl o gael eu dal a'r cosbau cyfreithiol ac ariannol), yn gallu cymell pobl i gymryd camau wrth dalu.²⁵

Atebion a allai oresgyn tueddiadau

Dyfeisiau ymrwymo

Yn aml, gohirio neu oedi yw un o'r rhesymau dros y bwlch rhwng yr hyn rydyn ni'n bwriadu'i wneud a'r hyn rydyn ni'n ei wneud mewn gwirionedd. Mae technegau fel dyfeisiau ymrwymo yn gallu helpu i bontio'r bwlch hwn a goresgyn problemau hunanreolaeth trwy ymrwymo'u hunain i wneud rhywbeth ymlaen llaw.²⁶ Er enghraifft, roedd cynllun Save More Tomorrow²⁷ yn caniatáu i weithwyr cyflogedig ymrwymo ymlaen llaw i gynydd bychan yn eu cyfradd cynilion pensiwn yn y dyfodol. Cynyddodd y gyfradd cynilion cyfartalog i gyfranwyr o 3.5 y cant i 13.6 y cant dros gyfnod o 40 mis. Felly, mae'r cyn-ymrwymiad hwn yn effeithiol o ran goresgyn y broblem o golli incwm gwario, oherwydd bod y cynilion yn dechrau yn y dyfodol (felly mae'r golled ganfyddedig yn llai). Gellid defnyddio dyfeisiau ymrwymo yng nghyd-destun y Dreth Gyngor, er enghraifft trwy gofrestru heddiw i wneud taliadau Debyd Uniongyrchol a fydd yn cychwyn yn y dyfodol.

Denu sylw

Ffordd arall o annog eraill i weithredu yw denu sylw at eich neges er mwyn annog pobl i ymgysylltu. Caiff ein sylw ei denu'n ddiymdrech at wybodaeth sy'n bersonol a pherthnasol i ni. Mae negeseuon personol yn ei gwneud hi'n haws i unigolion ddychmygu'r costau a'r manteision penodol iddyn nhw²⁸ ac yn apelio at ein dyhead i gynnal delwedd gadarnhaol o'n hunain: trwy dynnu sylw at y ffaith os nad ydyn ni'n talu, y byddwn yn ymddwyn mewn modd sy'n groes i'r ddelwedd gadarnhaol yr hoffem ei phortreadu.²⁹ Mae'r DVLA yn anfon llythyrau at berchnogion cerbydau y mae eu treth car yn ddyledus. Roedd cynnwys llun o gerbyd y perchennog, heb ei drethu, wedi arwain at gynydd sylweddol mewn taliadau treth car wedyn³⁰ Mae TBI wedi gweithio â Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi i ddod o hyd i ffyrdd i gynyddu taliadau dyledion trethi. Roedd ychwanegu neges bersonol mewn llawysgrifen (a oedd yn cynnwys enw'r unigolyn) ar flaen amlenni gwyn wedi gwella'r cyfraddau ateb a chynyddu'r niferoedd a lenwodd eu ffurflen dreth, o gymharu â'r rhai a gafodd amlen frown blaen.³¹

Dylai negeseuon yn ymwneud â'r Dreth Gyngor fod mor bersonol a pherthnasol â phosib i'r unigolyn dan sylw felly, er enghraifft trwy anfon llythyrau neu negeseuon testun at ac oddi wrth unigolion a enwir. Yn ogystal â phersonoleiddio negeseuon, mae gwneud negeseuon yn fwy clir a deniadol yn gallu helpu i

ddenu sylw. Gall defnyddio graffeg neu liwiau syml a hygyrch, er enghraifft, helpu i gymell pobl i sylwi a gweithredu ar neges yn ymwneud â'r Dreth Gyngor. Gwelodd un astudiaeth fod defnyddio system codio lliw syml i ddangos gwerth maethol bwyd yn helpu rhai defnyddwyr i ymwrthod â themtasiynau bwyd.³²

Amseru

Tra bod llawer o astudiaethau wedi archwilio effaith gwneud newidiadau ymddygiadol i lythyrau, mae'r ffordd y caiff negeseuon eu hanfon ac amseriad y negeseuon yn gallu gwneud gwahaniaeth hefyd. Er enghraifft, mae cysylltu â phobl pan fo costau a manteision penderfyniad yn gliriach neu'n nes at yr amser yn fwy tebygol o'u sbarduno i weithredu. Er enghraifft, bu TBI yn gweithio gyda Gwasanaeth Llysoedd EM er mwyn cynyddu taliadau dirwyon gan droseddwr ifanc. Trwy anfon negeseuon testun at bobl ddeg diwrnod cyn i'r beiliaid alw, cynyddodd y cyfraddau talu ddwy neu dair gwaith (yn dibynnu ar y neges ymddygiadol arall oedd yn y neges destun).³³ Mae neges destun yn cynnig cyfle da i gyfathrebu mewn ffordd uniongyrchol ac ymarferol a allai wella'r broses o gasglu'r Dreth Gyngor.

Dewisiadau rhagosodedig

Mae gennym dueddiad cryf i ffafrio'r opsiwn rhagosodedig, gan ei fod yn lleihau'r costau uniongyrchol ac anuniongyrchol o weithredu.³⁴ Gall rhagosodiadau fod yn arbennig o ddefnyddiol os oes unrhyw ansicrwydd o ran gwneud penderfyniadau neu wrthwynebiad i newid.³⁵ Mae ymrestru gyda gwasanaethau yn un maes lle mae rhagosodiadau wedi cael effaith sylweddol. Mae newid i system optio allan yn y DU ar gyfer cyfraniadau pensiwn wedi arwain at 15 pwynt canran o gynnydd o ran cyflogwyr sy'n talu i bensiynau gweithle dros y ddwy flynedd ddiwethaf, sy'n gyfystyr â 5 miliwn o gynilwyr ychwanegol.³⁶ Gellir defnyddio rhagosodiadau syml er mwyn annog rhagor i dalu'r Dreth Gyngor, er enghraifft trwy ragosod pobl i ddefnyddio Debyd Uniongyrchol neu wneud taliadau ar-lein yn opsiwn rhagosodedig. Bydd lleihau nifer y camau yn y broses (e.e. cliciau i lenwi gwybodaeth dalu ar-lein) hefyd yn helpu i leihau'r costau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â thalu'r Dreth Gyngor.

Fframio

Mae'r dull o eirio dewisiadau yn gallu effeithio ar benderfyniadau pobl. Er enghraifft, pan gafodd penderfyniadau meddygol eu fframio mewn termau cadarnhaol (tebygolrwydd o fyw) yn hytrach na thermau negyddol (tebygolrwydd o farw), roedd pobl yn fwy tebygol o ddewis triniaeth, er gwaetha'r ffaith bod y tebygolrwydd yr un fath.³⁷ Gallai gwneud goblygiadau negyddol peidio â thalu'r Dreth Gyngor yn glir, er enghraifft pwysleisio'r dyledion sy'n cronni, colli'r hawl i dalu trwy randaliadau a chamau cyfreithiol, fanteisio ar effaith fframio a thuedd pobl i osgoi colledion, er mwyn annog rhagor i dalu'r Dreth Gyngor.

Normau cymdeithasol

Rydyn ni'n cael ein dylanwadu'n fawr gan ymddygiad y rhai o'n cwmpas ni, a'r disgwyliadau ymddygiad amlwg neu sydd ymhlyg o fewn cymdeithas neu grŵp o bobl.³⁸ Mae cyflwyno gwybodaeth er mwyn amlygu'r ffaith bod unigolion yn allanolion o ran ymddygiad o gymharu ag eraill, yn gallu'u harwain i newid eu hymddygiad tuag at y norm cymdeithasol. Gwelodd treial blaenorol gan y TBI a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi fod cynnwys gwybodaeth am normal cymdeithasol ar ffurf llythyrau ('Mae naw o bob deg o bobl yn y DU yn talu eu trethi'n brydlon') wedi cynyddu taliadau'n sylweddol.³⁹ Cynyddodd y cyfraddau talu ymhellach ar ôl ychwanegu'r llinell norm 'lleiafrif' ('Mae naw o bob deg o bobl yn y DU yn talu eu trethi'n brydlon. Rydych chi ymhlith y lleiafrif bach o bobl nad ydynt wedi'n talu ni hyd yma').⁴⁰ Ers hynny, rydyn ni wedi defnyddio normau cymdeithasol yn llythyrau atgoffa'r Dreth Gyngor ym Medway, sydd wedi cynyddu cyfraddau talu 11 pwynt canran.

Negeseuon am wasanaethau cyhoeddus

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn sylweddoli fod trethu yn hanfodol i dalu am nwyddau cyhoeddus sydd o fudd i bawb, yn ogystal ag eitemau penodol maen nhw'n cael budd penodol ohonynt. Ond go brin fod pobl yn meddwl am hyn wrth wneud penderfyniad i dalu eu Treth Gyngor. Gallai cymell pobl i feddwl am y gwasanaethau sy'n cael eu hariannu trwy'r Dreth Gyngor eu hannog i dalu. Mae yna ddwy theori sy'n cyd-fynd â'i gilydd ynglŷn â sut y gellir darbwyllo unigolion i dalu trethi trwy ganolbwyntio ar ganlyniadau trethu (h.y. gwasanaethau cyhoeddus). Yn gyntaf, dull dwyochrog syml o 'rywbeth am rywbeth', lle rydym yn talu treth er mwyn cael budd neu fantais amlwg arall.⁴¹ Yn ail, safbwynt mwy allgarol, moesol, lle mae talu treth yn ffordd o sicrhau rhywbeth da yn ei hanfod.^{42 43} Cynhaliodd TBI dreial gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi a brofodd y ddwy theori, a gwelwyd bod cyfraddau talu wedi cynyddu 1.3% o ddefnyddio neges nwyddau cyhoeddus mwy allgarol, wedi'i fframio ar fuddion (*"Mae talu trethi yn golygu bod pawb ohonom yn elwa ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol fel y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, ffyrdd ac ysgolion."*)⁴⁴

Casgliad

Trafodir sawl dull gwahanol yn yr adolygiad llenyddiaeth a allai gynyddu taliadau'r Dreth Gyngor. Fe wnaethom ni ddefnyddio'r rhain, yn ogystal â'n gwaith ni'n hunain er mwyn datblygu ymyriadau yng Nghasnewydd a Merthyr Tudful. Roedden ni'n awyddus i brofi'r dulliau gwahanol yn y naill ardal a'r llall er mwyn i Lywodraeth Cymru ddysgu i'r eithaf ohonynt. Yn yr adran nesaf, byddwn yn egluro'r dulliau a ddefnyddiwyd yn y ddau dreial.

Treial 1 - Treial negeseuon testun gyda Chyngor Casnewydd

Amcanion y prosiect

Prif amcan y prosiect yng Nghasnewydd oedd cynyddu'r niferoedd sy'n talu'r Dreth Gyngor trwy Ddebyd Uniongyrchol. Yr ail amcan oedd cynyddu'r cyfraddau talu cyn anfon llythyrau atgoffa.

Yr ymyriad

Ddechrau'r flwyddyn dreth, mae Cyngor Casnewydd yn anfon bil blynyddol y Dreth Gyngor at drigolion, sy'n nodi manylion y taliadau sy'n ofynnol am y flwyddyn i ddod. Gall aelwydydd dalu trwy Ddebyd Uniongyrchol, dros y ffôn, ar-lein, neu'n bersonol mewn banc, mewn swyddfa bost neu'r Cyngor ei hun. Unwaith mae aelwyd wedi cofrestru i ddefnyddio Debyd Uniongyrchol, mae'r taliadau'n cael eu cymryd yn awtomatig. Yn y treial hwn, fe wnaethom anfon cyfres o negeseuon testun yn y tri mis ar ôl anfon y bil blynyddol, er mwyn atgoffa trigolion Casnewydd i dalu'r Dreth Gyngor a'u hannog i dalu trwy Ddebyd Uniongyrchol.

Mae ymchwil ymddygiadol yn awgrymu bod amseriad y neges a'r ffordd rydyn ni'n ei derbyn yn gallu dylanwadu ar ein hymateb iddi (gweler yr Adolygiad Llenyddiaeth). Nod y negeseuon testun oedd atgoffa pobl i dalu, yn ogystal â'u cymell i newid i Ddebyd Uniongyrchol. Er mwyn profi pa mor effeithiol yw'r dull hwn, anfonwyd negeseuon at hanner y trigolion yr oedd gan Gyngor Casnewydd rifau ffôn ar eu cyfer ac nad oeddent yn talu trwy Ddebyd Uniongyrchol. Mae'r negeseuon testun wedi'u disgrifio isod:

Grŵp	Manylion yr ymyriadau
Dim neges destun (grŵp rheoli)	Wedi derbyn neges arferol am y Dreth Gyngor ar ffurf bil blynyddol ac unrhyw lythyrau atgoffa priodol, ond heb dderbyn unrhyw negeseuon testun.
Neges destun (grŵp triniaeth)	Wedi derbyn neges arferol am y Dreth Gyngor ar ffurf bil blynyddol ac unrhyw lythyrau atgoffa yn ogystal â neges destun seiliedig ar ymddygiad yn ystod pob mis o'r treial (tri mis). Roedd mis 1 yn defnyddio neges norm cymdeithasol: <i>Hi [insert name], we've sent you your annual Council Tax bill. Did you know 66% of households in Newport pay by Direct Debit? Click here to sign up today: [insert link] - Newport City Council If you would prefer not to receive any more messages from us, text NPSTOP to 82228.</i> Roedd neges mis 2 yn pwysleisio pa mor hwylus yw defnyddio Debyd Uniongyrchol: <i>Hi [first name], your next Council Tax instalment of £[insert amount] is due on the [insert date] May. Take the hassle out of paying by signing up to Direct Debit here: [insert link]. If you would prefer not to receive any more messages from us, text NPSTOP to 82228."</i> Roedd neges mis 3 yn atgoffa'r trigolion bod y dreth gyngor yn cael ei gwario ar wasanaethau cyhoeddus lleol: <i>Hi [first name], your next Council Tax instalment of £[insert amount] is due on the [insert date] June. Your Council Tax funds valuable public services in Newport. Click here to pay: [insert link]. If you would prefer not to receive any</i>

	<i>more messages from us, text NPSTOP to 82228."</i>
--	--

Gweithredu


Cafodd y negeseuon testun eu hanfon at tua 4,500 o aelwydydd nad ydynt yn talu trwy Ddebyd Uniongyrchol, yr oedd gan Gyngor Casnewydd rif ffôn symudol ar eu cyfer. Aeth TBI ati i'w rhannu i ddau grŵp ar hap ar ddechrau'r treial. Anfonwyd negeseuon testun at un grŵp (y grŵp triniaeth) ond nid y grŵp arall (y grŵp rheoli) yn ystod cyfnod y treial. Cynhaliwyd y treial rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2016.

Canlyniadau

Dros holl gyfnod y treial, nid oedd unrhyw wahaniaeth sylweddol rhwng y grŵp triniaeth a'r grŵp rheoli o ran y tebygolrwydd o gofrestru i ddefnyddio Debyd Uniongyrchol (gweler Ffigur 1). Yn ystod mis cynta'r treial, fodd bynnag, fe wnaeth nifer sylweddol fwy o bobl yn y grŵp triniaeth gofrestru i ddefnyddio Debyd Uniongyrchol.


Gall fod sawl eglurhad am y gwahaniaeth sylweddol yn y mis cyntaf. Efallai bod y ddwy neges gyntaf (y byddai'r trigolion wedi'u derbyn erbyn diwedd y mis cyntaf) yn canolbwyntio'n benodol ar gofrestru i ddefnyddio Debyd Uniongyrchol neu gallai ddangos grym negeseuon norm cymdeithasol (oedd yn y neges gyntaf yn unig). Neu, gallai fod yn fater o amseru. Gwyddom fod amseriad ymyriadau yn ffactor pwysig o ran penderfynu sut mae pobl yn ymateb i ymyriad (gweler yr Adolygiad Llenyddiaeth). Efallai yn ystod mis cyntaf blwyddyn y Dreth Gyngor, pan fo pobl yn derbyn eu bil blynyddol, fod neges destun yn ddigon i gymell rhai pobl a oedd wedi ystyried talu trwy Ddebyd Uniongyrchol i wneud hynny. Neu fod cyfnod bilio newydd y Dreth Gyngor, sy'n dilyn deufis o beidio gorfod talu'r Dreth Gyngor, yn gyfle i bobl ailystyried hen arferion ac yn barod i fabwysiadu dull newydd. Mae angen cynnal rhagor o waith i ddeall p'un o'r sbardunwyr posib hyn a achosodd i bobl newid eu hymddygiad, ac rydym yn trafod y dulliau gwahanol yn yr adran Argymhellion.

Ffigur 1: Y gyfran o drigolion Casnewydd yn y sampl a dalodd trwy Ddebyd Uniongyrchol yn ystod cyfnod y treial



Wrth fesur y tebygolrwydd o wneud taliad, gwelsom fod y grŵp triniaeth yn llai tebygol o dalu'r Dreth Gyngor yn ystod y treial (gweler Ffigur 2). Mae'r canfyddiad hwn yn wir hyd yn oed wrth ystyried y rhai a symudodd i Ddebyd Uniongyrchol. Mae hwn yn ganfyddiad annisgwyl ac nid yw'n un greddfoll. Aethom ati i gynnal dadansoddiad pellach o'n canlyniadau gyda Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru a gweld bod cydberthynas gadarnhaol ag amddifadedd. Hynny yw, po fwyaf tlawd yw ardal, yna lleiaf tebygol yw trigolion yr ardal honno o dalu ar ôl cael neges destun. Fel rhagdybiaeth gynnar, felly, gall negeseuon testun fod yn ddefnyddiol i bobl â digon o arian i dalu'r bil, ond i bobl â llai o incwm gwario, gallai'r negeseuon gael eu gweld fel ffordd ddigroeso a di-fudd o fynnu taliad, gan gael effaith niweidiol ar gyfraddau talu.

Ffigur 2: Y gyfran o drigolion Casnewydd yn y sampl a dalodd fesul rhandaliad yn ystod cyfnod y treial



Argymhellion

Mae effaith negyddol y negeseuon testun ar gyfraddau talu yn ganlyniad croes i'r disgwyl felly mae TBI yn bwriadu cynnal dadansoddiad ansoddol er mwyn deall hyn yn well. Byddwn yn gweithio gyda Chyngor Casnewydd i nodi detholiad o aelwydydd nad ydynt yn defnyddio Debyd Uniongyrchol ar hyn o bryd er mwyn cynnal grwpiau ffocws neu gyfweiliadau wedi'u strwythuro'n rhannol gyda nhw. Mae creu cysylltiadau â sefydliadau, neu elusennau, sy'n gweithio gyda'r grŵp hwn yn hollbwysig er mwyn cynhyrchu data gwerth chweil. Bydd y data'n canolbwyntio ar gynnwys y negeseuon, y dull o negeseua a'r cymhellion a'r rhwystrau i aelwydydd gofrestru i ddefnyddio Debyd Uniongyrchol. Yn ogystal â deall canlyniadau'r treial hwn, bydd yr ymchwil ansoddol hefyd yn helpu i ddangos a ddylai Cyngor Casnewydd gynnal treialon negeseuon testun yn y dyfodol er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio Debyd Uniongyrchol. Bydd y gwaith hwn yn cychwyn ym mis Hydref 2016 a byddwn yn cyflwyno'r canlyniadau i Lywodraeth Cymru a Chyngor Casnewydd.

Dyma'n trydydd treial rydym wedi'i gynnal gyda'r nod o annog rhagor o bobl i ddefnyddio Debyd Uniongyrchol, na fu'n gwbl lwyddiannus. Yn flaenorol, roeddem wedi ceisio aileirio llythyrau a hysbysebu loteri oedd yn agored i bobl a gofrestrodd i ddefnyddio Debyd Uniongyrchol⁴⁵ Yn y treial hwn, ein nod oedd ei gwneud hi mor hwylus â phosib i bobl gofrestru trwy anfon neges destun â dolen gyswllt i'r dudalen gofrestru. Mae'n ymddangos ei bod hi'n anodd cymell pobl nad ydynt yn talu trwy Ddebyd Uniongyrchol i ddefnyddio'r dull hwn o dalu. O gofio ei bod hi'n ffordd hawdd ac effeithlon i dalu,

byddem yn argymhell gwaith ymchwil i ddeall hyn. Mae tystiolaeth anecdotaidd o waith ehangach TBI gyda thenantiaid cymdeithas dai yn dangos bob pobl yn ei chael hi'n haws i gyllidebu os ydyn nhw'n talu biliau eu hunain yn hytrach na bod arian yn gadael eu cyfrif yn awtomatig. Felly, gallai ymchwil pellach ystyried a yw pobl yn anfodlon cofrestru i ddefnyddio Debyd Uniongyrchol am eu bod yn poeni y byddai'n gwneud eu sefyllfa ariannol yn anoddach.

Treial 2 –Treial llythyrau gyda Chyngor Merthyr Tudful

Amcanion y prosiect

Nod y treial hwn ym Merthyr oedd cynyddu cyfraddau talu'r Dreth Gyngor trwy gynyddu cyfran yr aelwydydd sy'n talu eu bil ar ôl derbyn y llythyr atgoffa cyntaf.

Yr ymyriad

Roedd y treial hwn yn newid y llythyr atgoffa cyntaf mae Cyngor Merthyr Tudful yn ei anfon at drigolion os ydyn nhw'n methu taliad y Dreth Gyngor. Y nod oedd cynyddu cyfran yr aelwydydd sy'n talu'r Dreth Gyngor ar ôl derbyn y llythyr hwn. Oherwydd cyfyngiadau ymarferol, nid oeddem yn gallu gwneud newidiadau i'r bil blyneddol felly canolbwyntiwyd ar y llythyr atgoffa cyntaf. Cynhaliwyd y treial rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2016.

Aethom ati i gynllunio dau lythyr newydd i gymharu â'r llythyr cyfredol (manyllion isod) a dewiswyd aelwydydd ar hap i dderbyn un o'r llythyrau hyn. Derbyniodd y grŵp rheoli y llythyr atgoffa safonol cyntaf a anfonir gan Gyngor Merthyr Tudful. Cafodd yr ail grŵp, grŵp triniaeth 1, fersiwn symlach o'r llythyr cyntaf, gyda diagram llif. Roedd y diagram yn dangos proses dalu'r Dreth Gyngor, ac yn egluro goblygiadau peidio â thalu yn glir, fel colli'r hawl i dalu trwy Ddebyd Uniongyrchol neu dderbyn gwŷs llys. Anfonwyd llythyr symlach at y trydydd grŵp hefyd (grŵp triniaeth 2), a oedd yn cynnwys neges am wasanaethau cyhoeddus yn hytrach na diagram llif, er mwyn annog pobl i dalu. Mae'r manyllion i'w gweld yn y tabl isod, a'r llythyrau llawn i'w gweld yn Atodiad 2.

Llythyrau	Manylion yr ymyriadau
Llythyr atgoffa safonol cyntaf (grŵp rheoli)	Wedi derbyn y llythyr atgoffa cyntaf sy'n cael ei anfon gan Gyngor Merthyr Tudful fel arfer.
Llythyr diagram (grŵp triniaeth 1)	Llythyr wedi'i symleiddio â mwy o bwyslais ar weithredu. Mae treialon blaenorol gan TBI wedi dangos y gall symleiddio'r neges a chynnwys galwad glir i weithredu olygu bod y wybodaeth mewn llythyr casglu treth yn fwy amlwg ⁴⁶ Hefyd, ychwanegwyd diagram llif a oedd yn amlinellu'r broses gasglu (anfon bil,

	cyfnod atgoffa, rhybudd terfynol, gwŷs llys), yn dangos lle mae'r unigolyn yn y broses ar hyn o bryd (y cam llythyr atgoffa), ac yn gwneud goblygiadau peidio â thalu yn gliriach. Cafodd TBI lwyddiant yn y gorffennol wrth ddefnyddio dull tebyg i gynyddu cyfraddau talu'r Dreth Gyngor ym Medway.
Llythyr gwasanaeth cyhoeddus (grŵp triniaeth 2)	Roedd y llythyr hwn yr un fath â'r un a gafodd grŵp trin 1, sef ei fod yn fyrrach, yn symlach ac yn canolbwyntio mwy ar weithredu. Yn lle diagram llif, fodd bynnag, roedd yn cynnwys neges nwyddau cyhoeddus: <i>"Council tax pays for vital local services that help and support everyone in Merthyr Tydfil. Please make sure you pay."</i> Roedd yn defnyddio'r syniad o ddwyochredd, sef greddf pobl i roi rhywbeth yn ôl os ydyn nhw wedi derbyn rhywbeth, ac allgaredd lle mae talu treth yn fodd i gyflawni rhywbeth da yn y bôn. Gwelwyd bod neges o'r fath yn effeithiol mewn treialon blaenorol gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi.

Gweithredu

Fel rhan o'r treial, profwyd dau lythyr atgoffa newydd am y Dreth Gyngor o gymharu â'r llythyr cyfredol ac anfonwyd y llythyr atgoffa cyntaf at tua 5,000 o aelwydydd rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin. Y mesur canlyniad oedd p'un ai oedd aelwyd wedi talu'r Dreth Gyngor ar ôl derbyn llythyr atgoffa cyntaf.

Er mwyn dyrannu llythyrau, fe wnaethom neilltuo llythyr gwahanol i ddeuddeg plwyf y cyngor bob mis. Felly, roedd Plwyf 1 yn derbyn y llythyr rheoli yn y mis cyntaf, llythyr triniaeth 1 yn yr ail fis a llythyr triniaeth 2 yn y trydydd mis. Cafodd plwyfi eraill gopi o bob llythyr fis ar y tro, ond mewn trefn wahanol i Blwyf 1. Mae'r tabl isod yn dangos pa blwyfi gafodd pa llythyrau ym mhob mis.


Plwyf	Ebrill	Mai	Mehefin
Trelewis/Bedlinog	Rheoli	Triniaeth 1	Triniaeth 2
Y Faenor	Rheoli	Triniaeth 1	Triniaeth 2
Gurnos	Rheoli	Triniaeth 2	Triniaeth 1
Tref Merthyr	Rheoli	Triniaeth 2	Triniaeth 1
Cyfarthfa	Triniaeth 1	Rheoli	Triniaeth 2
Penydarren	Triniaeth 1	Rheoli	Triniaeth 2
Pant	Triniaeth 1	Triniaeth 2	Rheoli

Ynysowen	Triniaeth 1	Triniaeth 2	Rheoli
Dowlais	Triniaeth 2	Rheoli	Triniaeth 1
Treharris	Triniaeth 2	Rheoli	Triniaeth 1
Parc	Triniaeth 2	Triniaeth 1	Rheoli
Pentre-bach	Triniaeth 2	Triniaeth 1	Rheoli

Canlyniadau

Mae Ffigur 3 yn dangos cyfran yr aelwydydd a dalodd y Dreth Gyngor ar ôl cael llythyr atgoffa cyntaf, wedi'u dadansoddi yn ôl y math o lythyr a gawsant. Gwelwn effaith gadarnhaol, er nad ystadegol-arwyddocaol ($p \sim 0.09$) y llythyr diagram, ac effaith lai, hyd yn oed lai arwyddocaol y neges am wasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn golygu na allwn ddweud bod y llythyrau newydd yn fwy effeithiol na'r llythyr cyfredol.

Ffigur 3 Cyfran yr aelwydydd a dalodd ar ôl cael y llythyr atgoffa cyntaf yn ystod y treial



Mae gan y canfyddiadau hyn nifer o oblygiadau posib:

- ◆ Rydym wedi ceisio defnyddio diagram proses mewn llythyr am y Dreth Gyngor o'r blaen ym Medway. Yn y cyd-destun hwnnw, llwyddwyd i gynyddu'n sylweddol nifer yr aelwydydd a dalodd ar ôl cael llythyr atgoffa. Mae'n ddiddorol nodi y cyfraddau talu ar gyfer pob grŵp (gan gynnwys y llythyr rheoli) yn uwch ym Medway. Gall hyn adlewyrchu'r gwahaniaethau mewn poblogaethau neu brosesau casglu.
- ◆ Mewn ffordd debyg i Dreial 1, nid yw'n ymddangos fel pe bai negeseuon am wasanaethau cyhoeddus yn newid ymddygiad pobl. Mae hyn yn awgrymu nad diffyg dealltwriaeth am y gwasanaethau y mae'r Dreth Gyngor yn talu amdanynt sy'n atal pobl rhag talu'r bil. Gall awgrymu hefyd bod negeseuon wedi'u fframio'n negyddol, fel rhai am golled neu ddiffyg cydymffurfio â normau cymdeithasol, a fu'n llwyddiannus mewn treialon treth eraill, yn fwy effeithiol.

Argymhelliad

Yn anffodus, ni arweiniodd y dulliau a dreialwyd gennym at welliant aruthrol mewn cyfraddau talu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad oes cyfle i ddefnyddio dimnadaeth o ymddygiad yn y dyfodol. Mae'r ffaith fod dulliau a weithiodd mewn ardaloedd eraill wedi methu yma, yn dangos pwysigrwydd cyd-destun lleol. Felly, rydym yn awgrymu ymchwil pellach er mwyn deall y gwahaniaethau rhwng Medway a Merthyr Tudful a allai lywio'r dasg o aileirio a phrofi llythyrau atgoffa yn y dyfodol, neu efallai'r bil blynyddol hyd yn oed.

Casgliad

Mae'r treialon a drafodir yn yr adroddiad hwn yn ychwanegu at waith blaenorol TBI er mwyn ceisio gwella'r broses o gasglu trethi ar lawr gwlad ac yn genedlaethol. Mae treialon blaenorol wedi dangos bod dulliau sy'n ei gwneud hi'n haws i dalu a defnyddio negeseuon sy'n defnyddio'r syniad o normau cymdeithasol yn arbennig o bwerus⁴⁷ Yn anffodus, ni wnaeth yr un o'r dulliau a ddefnyddiwyd yng Nghasnewydd neu Ferthyr Tudful arwain at gynydd sylweddol yn y Dreth Gyngor a gasglwyd. Er hynny, daeth ambell gasgliad diddorol i'r amlwg:

- Yng Nghasnewydd, mae'n ymddangos bod y negeseuon a anfonwyd yn y mis cyntaf wedi bod yn effeithiol o ran annog pobl i ddechrau defnyddio Debyd Uniongyrchol yn y mis hwnnw.
- Yn yr un modd, roedd y llythyr diagram ym Merthyr Tudful yn fwy llwyddiannus na'r grŵp rheoli ym Merthyr Tudful, er nad oedd hyn yn arwyddocaol ar lefel hyder o 95%


Er ei bod hi'n demtasiwn dod i'r casgliad fod y treialon wedi 'methu', yn aml mae deall beth sydd ddim yn gweithio yr un mor bwysig â deall beth sy'n gweithio. O gofio bod modd profi'r dulliau hyn yn weddol rwydd a rhad, gall cynghorau eu defnyddio, eu profi a'u mireinio dro ar ôl tro, gyda'r nod yn y pen draw o ganfod dull sy'n gweddu i gyd-destun penodol y cyngor hwnnw.

Bu'r ddau dreial yn gyfle i ni feithrin dealltwriaeth o'r heriau sydd angen eu hwynebu er mwyn addasu dulliau llwyddiannus i leoliadau newydd. Yn seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth flaenorol, roeddem yn credu y byddai apelio at ysbryd cyhoeddus cymwynasgar pobl a phwysleisio bod trethi'n talu am wasanaethau cyhoeddus lleol yn gwneud i'r manteision fod yn fwy gweladwy a real ac felly'n arwain at gyfraddau talu uwch. Gallai'r ffaith fod y dull hwn yn effeithiol ar lefel genedlaethol, ond nid ar lefel leol, adlewyrchu'r gwahaniaethau pwysig rhwng y Dreth Gyngor a Threth Incwm, megis y gyfradd uchel o daliadau Treth Gyngor a bod y taliad hwnnw'n dueddol o fod yn gyfran sylweddol is o incwm aelwydydd.

Hefyd, dyma'r trydydd tro i ni geisio gwella'r niferoedd sy'n defnyddio Debyd Uniongyrchol i dalu'r Dreth Gyngor, ac mae'n faes anodd iawn i wella arno. Ymddengys nad yw dulliau fel normau cymdeithasol a'i gwneud hi'n haws i ddefnyddio Debyd Uniongyrchol, sy'n llwyddo mewn meysydd casglu trethi eraill, yn ddigon cryf i gynyddu'r defnydd o Ddebyd Uniongyrchol yn sylweddol wedi'r mis cyntaf. Efallai mai'r rheswm am hyn yw bod pobl yn pryderu am weld symiau sylweddol yn mynd allan o'u cyfrif banc yn awtomatig gan ei fod yn anoddach cyllidebu wedyn, sy'n debygol o fod yn broblem arbennig i bobl heb incwm cyson bob mis. Mae angen cynnal gwaith ymchwil i ddeall y rhwystrau i ddefnyddio Debyd Uniongyrchol cyn cynnal prosiectau pellach i gynyddu'r niferoedd.

Yn gyffredinol, mae'r treialon hyn wedi dangos yn glir pa mor bwysig yw'r cyd-destun lleol, ac nad yw dulliau sydd wedi llwyddo'n genedlaethol neu mewn lleoliadau eraill yn mynd i gael yr un effaith mewn llefydd eraill o reidrwydd. Gallai canlyniadau gwaith o'r fath lywio penderfyniadau i fabwysiadu modelau ataliol neu anataliol o gasglu trethi. Gallai'r gwaith hwn greu goblygiadau p'un ai ydym yn mabwysiadu modelau ataliol neu ddi-ataliol o gasglu trethi. Cyfran fach iawn o bobl sy'n peidio talu'r Dreth Gyngor, ac os ydyn nhw'n peidio talu'n gyson, yna mae ymchwil blaenorol yn awgrymu y gallai'r model ataliol fod yn fwy effeithiol er mwyn casglu trethi (gweler yr Adolygiad Llenyddiaeth). Fodd bynnag, rhaid deall y rhesymau pam nad yw pobl yn ymddwyn mewn ffordd benodol cyn rhoi polisïau ar waith. Er enghraifft, os nad yw pobl yn talu'r Dreth Gyngor neu ddim yn cofrestru i ddefnyddio Debyd Uniongyrchol oherwydd problemau ehangach fel pryderon am allu i gyllidebu, yna gall ymyriadau ehangach fel gwella ymwybyddiaeth ariannol fod o fudd hefyd.

Atodiad 1: Proses y Dreth Gyngor os nad yw pobl yn talu



Atodiad 2: Copi o lythyrau o dreial 2

Llythyr 1: Llythyr rheoli

Ellis Cooper BSc. (Hons) Corporate Director Place and Transformation Cylarwyddwr Corfforaethol – Lleoliadau a Gweiddreoliad		Civic Centre, Castle Street, Merthyr Tydfil, CF47 8AN Canolfan Oedwraig, Stryd y Castell, Merthyr Tudfa, CF47 8AN	
<%ADDRESSEE%> <%CORRES_LINE1%> <%CORRES_LINE2%> <%CORRES_LINE3%> <%CORRES_LINE4%> <%CORRES_LINE5%>		Tel/Ffôn: (01685) 724555 Ffôn/Ffôn: (01685) 723166 www.merthyr.gov.uk	
Dyddiad/Date: <%ISSUE_DATE%>			
Cyfrif Biddo /Property Ref.: <%PROPERTY_REF_NUM%> Bidd Cyfrif/Our Ref.: Llinell Taliaid Unllosgyrrhol/Direct Payment: 01685 725115		Llinell Unllosgyrrhol/Direct Line: <%PROPERTY_REF_NUM%> Golynwch am/Please Ask For: Recovery E-Bost/E-mail: Recovery@merthyr.gov.uk	
<%FUND%> Reminder Notice			
Re: <%FUND%> Account No: <%ACCOUNT_NUMBER%>			
Property: <%PROP_LINE1%> <%PROP_LINE2%> <%PROP_LINE3%> <%PROP_LINE4%> <%PROP_LINE5%>			
<%FUND%> records indicate that your monthly instalments are in arrears.			
The total amount payable on this notice is: £<%AMOUNT_DUE%>.			
Please be advised that if this amount is not paid by <%ARREARS_DUE_DATE%>, your right to pay by instalments will be cancelled and the total account balance remaining of £<%OS_AMOUNT%> will become immediately due. If legal proceedings are undertaken costs in addition to this sum may be awarded against you by the Magistrates Court.			
See overleaf for payment methods:			
Please disregard this notice if this payment has been made within the last 2 to 3 days.			
Yours Faithfully			
ELLIS COOPER CORPORATE DIRECTOR PLACE AND TRANSFORMATION			

Llythyr 2: Llythyr diagram

III
Ellis Cooper BSc (Hons)
Cyfarwyddwr Corfforaethol – Lloedd a Gweddnewid
Corporate Director Place and Transformation

Civic Centre, Castle Street,
Merthyr Tydfil, CF47 8AN
Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell,
Merthyr Tudful, CF47 8AN

Tel/Ffôn: (01685) 724555
Ffôn/Ffacs: (01685) 722146
www.merthyr.gov.uk



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TYDFIL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Mr Phillip Matthews & Mrs Marilyn Elizabeth Matthews
77 Hawthorn Avenue
Gurnos
Merthyr Tydfil
CF48 1PE

Dyddiad/Date: 13-APR-2016


Account No: 20123546

YOU HAVE MISSED YOUR COUNCIL TAX PAYMENT

Dear Mr Phillip Matthews & Mrs Marilyn Elizabeth Matthews

You have missed your council tax payment for your property: 77 Hawthorn Avenue.
Please pay **£100.00** now. See overleaf for how to pay.

You are currently at the reminder stage – your last chance to avoid paying the full annual amount in one go.




```

graph LR
    A["£  
Bill issued"] --> B["L  
Reminder notice:  
Amount due  
£100.00"]
    B --> C["!  
Final notice:  
Full amount for  
year  
immediately  
£1000.00"]
    C --> D["⚡  
Court summons:  
Full amount due  
+ court costs"]
    
```

If you do not pay by 20-APR-2016, then you will instead have to pay your full annual bill of **£1000.00** immediately. If you cannot pay, please contact the council on [\(01685\) 724555](tel:01685724555) urgently. If you have paid in the last 2 to 3 days please ignore this letter.

Croesawn ni ohebu yn y Gymraeg a fydd hyn ddim yn arwain at oedi. / We welcome correspondence in Welsh and this will not lead to delay

Yours Faithfully



ELLIS COOPER
CORPORATE DIRECTOR PLACE AND TRANSFORMATION

Merthyr Tydfil
... a place to be proud of

Merthyr Tudful
... lle i fod yn flic ohono

Llythyr 3: Llythyr gwasanaethau cyhoeddus

Ellis Cooper BSc. (Hons) Cyfarwyddwr Corfforaethol – Uwedd a Gweddnewid Corporate Director Place and Transformation	Civic Centre, Castle Street, Merthyr Tydfil, CF47 8AN Casglian Ddiwyg, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN	 Cynghor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TYDFIL MERTHYR TYDFIL County Borough Council
Mr Philip Matthews & Mrs Marilyn Elizabeth Matthews 77 Hawthorn Avenue Gurnos Merthyr Tydfil CF48 1PE	Tel/Ffôn: (03685) 724555 Ffôn/Ffacs: (03685) 723146 www.merthyr.gov.uk	

Dyddiad/Date: 13-APR-2016

Account No: 20323144

**Council tax pays for vital local services for you and your neighbours
Please pay today**

Dear Mr Philip Matthews & Mrs Marilyn Elizabeth Matthews

Council tax helps Merthyr Tydfil County Borough Council provide services that help you and your neighbours, such as Education, Social Services, Police, Fire and Waste Services.

You have missed your council tax payment for your property: 77 Hawthorn Avenue.
Please pay **£100.00** now. See overleaf for how to pay.

If you do not pay by 20-APR-2016, then you will instead have to pay your full annual bill of **£1000.00** immediately. If you cannot pay, please contact the council on **(01685) 724555** urgently. If you have paid in the last 2 to 3 days please ignore this letter.

Yours Faithfully



ELLIS COOPER
CORPORATE DIRECTOR PLACE AND TRANSFORMATION

Croesawn ni ohebu yn y Gymraeg a fydd hyn ddim yn arwain at oedi. / We welcome correspondence in Welsh and this will not lead to delay

Merthyr Tydfil ... a place to be proud of	Merthyr Tudful ... lle i fod yn ffrich ohono
--	---

Ôl-nodiadau a chyfeiriadau

- ¹ <http://llyw.cymru/statistics-and-research/local-authority-revenue-outturn-expenditure/?skip=1&lang=cy>
- ² Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o oedolion sy'n byw mewn llety preifat neu rent dalu'r Dreth Gyngor. Mae gostyngiadau ar gael i gartrefi pobl sengl ac eithriadau i fyfyrwyr, diplomyddion a phobl â nam meddyliol difrifol.
- ³ Allingham, M. G., a Sandmo, A. (1972). Income Tax Evasion: A theoretical analysis. *Journal of Public Economics*, 323-338.
- ⁴ Ortega, D., a Sanguinetti, P. (2013). Deterrence and reciprocity effects on tax compliance: experimental evidence from Venezuela.
- ⁵ Hessing, D. J., Elffers, H., Robben, H. S., a Webley, P. (1992). Does deterrence deter? Measuring the effect of deterrence on tax compliance in field studies and experimental studies. *Why people pay taxes: Tax compliance and enforcement*, 291-305.
- ⁶ Brehm, S. S., a Brehm, J. W. (1981). Psychological reactance: A theory of freedom and control, Academic Press. *Efrog Newydd*.
- ⁷ Hallsworth, M. (2014). The use of field experiments to increase tax compliance. *Oxford Review of Economic Policy*, 30(4), 658-679.
- ⁸ Erard, B., a Feinstein, J. S. (1994). The role of moral sentiments and audit perceptions in tax compliance. *Public Finance=Finances publiques*, 49(Supplement), 70-89.
- ⁹ Ariel, B. (2012). Deterrence and moral persuasion effects on corporate tax compliance: findings from a randomised control trial. *Criminology*, 50(1), 27-69.
- ¹⁰ Hallsworth, M. (2014). The use of field experiments to increase tax compliance. *Oxford Review of Economic Policy*, 30(4), 658-679.
- ¹¹ Kirchler, E. (2007). *The economic psychology of tax behaviour*. Cambridge University Press.
- ¹² Castro, L., a Scartascini, C. (2015). Tax compliance and enforcement in the pampas evidence from a field experiment. *Journal of Economic Behavior & Organization*, 116, 65-82.
- ¹³ Dwenger, N., Kleven, H. J., Rasul, I., a Rincke, J. (2014). Extrinsic and intrinsic motivations for tax compliance: Evidence from a field experiment in Germany. *Papur heb ei gyhoeddi, Mai*.
- ¹⁴ The Behavioural Insights Team Update 2013-2015.
- ¹⁵ Milgram, N. N., Mey-Tal, G., a Levison, Y. (1998). Procrastination, generalized or specific, in college students and their parents. *Personality and Individual Differences*, 25(2), 297-316.
- ¹⁶ The Behavioural Insights Team Update 2013-2015.
- ¹⁷ Steele, C. M. (1988). The psychology of self-affirmation: Sustaining the integrity of the self. *Advances in experimental social psychology*, 21(2), 261-302.
- ¹⁸ Frederick, S., Loewenstein, G., a O'Donoghue, T. (2002). Time discounting and time preference: A critical review. *Journal of economic literature*, 351-401.
- ¹⁹ Benhabib, J., Bisin, A., a Schotter, A. (2010). Present-bias, quasi-hyperbolic discounting, and fixed costs. *Games and Economic Behavior*, 69(2), 205-223.
- ²⁰ Laibson, D. (1997). Golden eggs and hyperbolic discounting. *The Quarterly Journal of Economics*, 443-477.
- ²¹ TBI, 2014, East: Four simple ways to apply behavioural insights.
- ²² Hallsworth, M., List, J. A., Metcalfe, R. D., a Vlaev, I. (2015). *The Making of Homo Honoratus: From Omission to Commission* (No. w21210). National Bureau of Economic Research;
- ²³ Fryer Jr, R.G., Levitt, S.D., List, J., a Sadoff, S. (2012). *Enhancing the efficacy of teacher incentives through loss aversion: A field experiment*. No. w18237. National Bureau of Economic Research
- ²⁴ Castro, L., a Scartascini, C. (2015). Tax compliance and enforcement in the pampas evidence from a field experiment. *Journal of Economic Behavior & Organization*, 116, 65-82.
- ²⁵ Fellner, G., Sausgruber, R., a Traxler, C. (2013). Testing enforcement strategies in the field: Threat, moral appeal and social information. *Journal of the European Economic Association*, 11(3), 634-660.

- ²⁶ TBI, 2014 East: Four simple ways to apply behavioural insights.
- ²⁷ Thaler, R. H., a Benartzi, S. (2004). Save more tomorrow™: Using behavioral economics to increase employee saving. *Journal of political Economy*, 112(S1), S164-S187.
- ²⁸ TBI, 2014, East: Four simple ways to apply behavioural insights.
- ²⁹ Cialdini, R. B. (2009). *Influence: Science and practice* (5th ed., Pearson international ed.). Boston, Mass. ; Llundain: Pearson/Allyn a Bacon.
- ³⁰ TBI, 2014, East: Four simple ways to apply behavioural insights.
- ³¹ Tîm Behavioural Insights. Hand written envelopes and self assessment tax. (2012). Mimeo.
- ³² Koenigstorfer, J., Groeppel-Klein, A., a Kamm, F. (2014). Healthful food decision making in response to traffic light color-coded nutrition labeling. *Journal of Public Policy & Marketing*, 33(1), 65-77.
- ³³ Haynes, L. C., Green, D. P., Gallagher, R., John, P., a Torgerson, D. J. (2013). Collection of delinquent fines: An adaptive randomized trial to assess the effectiveness of alternative text messages. *Journal of Policy Analysis and Management*, 32(4), 718-730.
- ³⁴ Thaler, R. H., a Sunstein, C. (2008). *Nudge: Improving decisions about health, wealth, and happiness*. New Haven, CT: Yale University Press.
- ³⁵ Samson, A. (2014). *The Behavioral Economics Guide 2014* (with a foreword by George Loewenstein and Rory Sutherland).
- ³⁶ Datganiad i'r wasg: Automatic enrolment: workplace pension saving at a 10-year high
<https://www.gov.uk/government/news/automatic-enrolment-workplace-pension-saving-at-a-10-year-high>
- ³⁷ McNeil, B. J., Pauker, S. G., Sox Jr, H. C., a Tversky, A. (1982). On the elicitation of preferences for alternative therapies. *New England journal of medicine*, 306(21), 1259-1262.
- ³⁸ Dolan, P., Hallsworth, M., a Halpern, D. (2010). *MINDSPACE: Influencing Behaviour Through Public Policy*. Llundain: Institute for Government.
- ³⁹ Hallsworth, M., List, J., Metcalfe, R., a Vlaev, I. (2014). *The behavioralist as tax collector: Using natural field experiments to enhance tax compliance* (No. w20007). National Bureau of Economic Research.
- ⁴⁰ Hallsworth, M., List, J., Metcalfe, R., a Vlaev, I. (2014). *The behavioralist as tax collector: Using natural field experiments to enhance tax compliance* (No. w20007). National Bureau of Economic Research.
- ⁴¹ Fehr, Ernst a Simon Gächter (1998) *Reciprocity and economics: The economic implications of homo reciprocans*. *European Economic Review* 42 (3-5), 845-59.
- ⁴² Mae aelwydydd yn cael eu cymell i dalu trethi hefyd, gan eu bod yn cael eu cosbi drwy'r broses gasglu pan na fyddant yn talu.
- ⁴³ McGraw, Kathleen M. a John T. Scholz (1991) *Appeals to civic virtue versus attention to self-interest: Effects on tax compliance*. *Law and Society Review*, 25, 471-498
- ⁴⁴ Hallsworth, M., List, J., Metcalfe, R., a Vlaev, I. (2014). *The behavioralist as tax collector: using natural field experiments to enhance tax compliance* (No. w20007). National Bureau of Economic Research.
- ⁴⁵ Yn 2015, bu TBI yn cydweithio â chynghorau Medway a Lewisham i gynyddu'r Dreth Gyngor a gesglir ac annog pobl i dalu trwy Ddebyd Uniongyrchol. Ym Medway, fe wnaethom gynnwys y llinell '*Direct Debit is the simplest and safest way to pay. Sign up today at [insert link]*' er mwyn nodi manteision Debyd Uniongyrchol yn glir. Roedd y llythyr safonol eisoes yn cynnwys llinell oedd yn defnyddio norm cymdeithasol i annog Debyd Uniongyrchol: '*Join over 65,000 Medway residents by simply completing the online Direct Debit form at [insert link]*'. Felly roedd y ddau lythyr yn cynnwys neges a dolen, ond roedd y math o neges yn wahanol. Nid oedd gan y llythyr newydd gyfradd wahanol o bobl yn cofrestru i ddefnyddio Debyd Uniongyrchol. Yn Lewisham, fe wnaethom gymhell pobl i ddechrau defnyddio Debyd Uniongyrchol trwy gyfrwng loteri. Cafodd y frawddeg: '*Sign up for direct debit and you have a chance to win £25,000*' ei chynnwys ar amlen y llythyr atgoffa cyntaf. Cymharwyd y llythyr hwn â'r llythyr atgoffa cyntaf. Unwaith eto, doedd dim gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y llythyr atgoffa newydd cyntaf a'r un gwreiddiol o ran niferoedd a gofrestrodd i ddefnyddio Debyd Uniongyrchol.
- ⁴⁶ Hallsworth, M., List, J., Metcalfe, R., a Vlaev, I. (2014). *The behavioralist as tax collector: using natural field experiments to enhance tax compliance* (No. w20007). National Bureau of Economic Research.
- ⁴⁷ TBI, 2014, East: Four simple ways to apply behavioural insights.